



Ein cyf: MA - L/HID/0692/18

Lynne Neagle AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
[SeneddCYPE@assembly.wales](mailto:SeneddCYPE@assembly.wales)  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Tŷ Hywel  
Caerdydd CF99 1NA

20 Tachwedd 2018

Annwyl Lynne,

### **Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)**

Yn fy ymateb i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn dilyn gwaith craffu Cyfnod 1 o'r Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru), dywedais y byddwn yn comisiynu darn o waith mewnol i archwilio ymhellach y gwahanol gynlluniau sydd ar gael i rieni i helpu gyda gofal plant, y tu allan i bamedrau'r Bil hwn, gyda'r nod o leihau unrhyw ddryswch a chymhlethdod. Roedd hyn yn arbennig mewn ymateb i argymhelliad 7 lle rwyf o'r farn bod rhaglenni cymorth eraill ar waith yn benodol ar gyfer rhieni mewn hyfforddiant ac addysg neu ar gyfer y rheini sydd angen cymorth i ddychwelyd i'r gwaith, ond mae'n bosibl nad oedd y rhain mor eglur ag y gallent fod.

Hoffwn eich gwneud chi'n ymwybodol o'r cymorth gofal plant canlynol, yn enwedig ar gyfer rhieni mewn hyfforddiant ac addysg.

- **Cymorth Dysgu Seiliedig ar Waith** - Ar hyn o bryd mae cymorth ar gael i ddysgwyr sydd heb waith drwy gymorth dysgu seiliedig ar waith. Mae'r cymorth ar gael i hyfforddeion i dalu amrywiaeth o gostau, yn cynnwys trafndiaeth, llety, cymorth dysgu ychwanegol a gofal plant. Mae cymorth ar gael i unig rieni, sy'n cael hyd at £161.50 yr wythnos ar gyfer y plentyn cyntaf neu £274.55 yr wythnos ar gyfer dau neu blentyn neu fwy. Rhaid defnyddio lleoliadau gofal plant cofrestredig. Bydd y rhaglen hon yn dod i ben ar 31 Mawrth 2019 ac yn cael ei disodli gan y rhaglen Cymru'n Gweithio a fydd yn parhau i roi cymorth i ddysgwyr sydd heb waith. Fodd bynnag, bydd cyfradd y cyllid yn cynyddu i hyd at £225 yr wythnos ar gyfer un plentyn (heb fod yn fwy na £45 y dydd) a £375 yr wythnos ar gyfer dau blentyn neu fwy (heb fod yn fwy na £75 y dydd).

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru)  
[Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales](mailto:Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- **Addysg Bellach** – Mae'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn<sup>1</sup> (FCF) yn £6.3 miliwn o gyllid Llywodraeth Cymru (sydd wedi bod ar waith ers 2014/15) sydd ar gael i'r rheini sy'n mynychu sefydliadau addysg bellach (AB) a ariennir gan arian cyhoeddus yng Nghymru. Fe'i gweinyddir gan y sefydliadau AB, fel grantiau neu fenthyciadau tymor byr, a'i nod yw rhoi cymorth ariannol i fyfyrwyr a allai gael eu rhwystro rhag parhau â'u haddysg y tu hwnt i'r oed gadael ysgol statudol oherwydd ystyriaethau ariannol neu fyfyrwyr sy'n wynebu anawsterau ariannol yn ystod eu hastudiaethau. Mae telerau'r cynllun mor eang â phosibl er mwyn rhoi cymaint o hyblygrwydd â phosibl i sefydliadau AB fel y gallant deilwra cymorth yn unol ag angen y dysgwyr. Mae'r cynllun yn nodi *myfyrwyr sydd angen help gyda chostau cymorth plant, yn enwedig unig rieni* fel un o'r grwpiau blaenoriaeth. Y meysydd gwariant mwyaf yw gofal plant, trafnidiaeth a thalebau cinio. Yn 2016/17 (y flwyddyn ddiweddaraf y mae gennym ni ystadegau ar ei chyfer), dyfarnwyd cymorth 901 o weithiau i fyfyrwyr sy'n rhieni i helpu gyda chostau gofal plant, cyfanswm o £2.7 miliwn.

Yn 2016 comisiynwyd Ymchwil Arad gan Lywodraeth Cymru i gynnal ymchwil annibynnol i'r graddau mae gofal plant yn rhwystro rhieni ifanc rhag mynd ymlaen i neu ddychwelyd i addysg bellach neu barhau ag addysg bellach yng Nghymru. Yn ôl yr ymchwil, er bod darpariaeth gofal plant yn un o nifer o heriau neu rwystrau sy'n wynebu rhieni ifanc sydd am ddechrau neu barhau ag AB yng Nghymru, mae'n ymddangos bod y trefniadau cyllido yn ôl disgrisiwn cyfredol yn diwallu dysgwyr AB sy'n rhieni. Fel y cyfryw, ac yn seiliedig ar y dystiolaeth a adolygwyd o ffynonellau amrywiol, daethant i'r casgliad nad oedd angen rhaglen beilot arall ar y pryd.<sup>2</sup>

- **Addysg Uwch** – Mae'r grant gofal plant<sup>3</sup> ar gael i fyfyrwyr llawn amser a rhan-amser sy'n mynd ymlaen i addysg uwch ac sydd â phlant dibynnol iau na 15 oed (neu 17 yn achos plant ag anghenion addysgol arbennig). Er ei fod yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, mae'r grant yn cael ei weinyddu gan Gyllid Myfyrwyr Cymru, ac mae'n dibynnu ar sefyllfa ariannol yr ymgeisydd. Gall myfyrwyr gael hyd at £161.50 yr wythnos ar gyfer y plentyn cyntaf neu £274.55 yr wythnos ar gyfer dau blentyn neu fwy. Bydd myfyrwyr rhan-amser yn cael grant gofal plant pro rata yn seiliedig ar ba mor ddwys yw eu hastudiaethau. Bydd sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn gweithredu eu cronfeydd caledi yn ôl disgrisiwn eu hunain ar gyfer myfyrwyr hefyd. Mae'r sefydliadau'n rhoi cymorth i helpu gydag amrywiaeth o gostau sy'n gysylltiedig ag astudio, yn cynnwys gofal plant.
- **Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru** – Yng Nghymru mae'r Cynllun Bwrsariaeth GIG yn cefnogi myfyrwyr sy'n dewis astudio rhaglenni gofal iechyd, sydd wedi ei gymeradwy, o fewn Cymru. Mae Lwfans Gofal Plant GIG Cymru yn rhan o'r pecyn yma, yn seiliedig ar 85% o gostau gofal plant cofrestredig neu gymeradwy hyd at uchafswm. O fis Medi 2014, yr uchafswm sy'n daladwy ar gyfer un plentyn yw £128.78 yr wythnos. Yr uchafswm ar gyfer dau blentyn neu fwy yw £209.95 yr wythnos. Fodd bynnag, mae pob lwfans gofal plant yn cael ei gyfrifo'n unigol a bydd y swm a roddir yn dibynnu ar amgylchiadau a'r incwm sydd ar gael i'r teulu. Mae trefniadau Bwrsariaeth GIG Cymru yn ddiweddar wedi bod yn destun

<sup>1</sup> Mae colegau AB unigol yn hyrwyddo'r Gronfa ar eu gwefannau

<sup>2</sup> <https://gov.wales/statistics-and-research/childcare-further-education/?lang=cy>

<sup>3</sup> <https://www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk/myfyrwyr-israddedig/myfyrwyr-rhan-amser/myfyrwyr-newydd/grant-gofal-plant.aspx>

ymgynghoriad a fydd yn llywio trefniadau yn y dyfodol. Bydd yr adolygiad yma yn edrych ar bob agwedd o'r pecyn presennol o gymorth gan gynnwys cymorth ar gyfer gofal plant.

Mae'n werth nodi hefyd fod y rheini sy'n hyfforddi neu'n astudio'n llawn amser yn gallu gwneud hawliad Credyd Cynhwysol newydd os oes unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol:

- Os ydynt yn byw gyda'u partner a'i fod ef/hi yn gymwys i gael Credyd Cynhwysol
- Os ydynt yn gyfrifol am blentyn, naill ai fel unig berson neu bâr, os ydy'r ddau ohonynt yn fyfyrwyr
- Os ydynt yn anabl ac yn gallu cael y Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) neu'r Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) a bod ganddynt allu cyfyngedig i weithio
- Os ydynt mewn 'addysg nad yw'n addysg uwch' (er enghraifft, astudio am lefel A neu Ddiploma Cenedlaethol BTEC, yn 21 oed neu iau ac nad oes ganddynt gymorth rhiant

Ar gyfer y rhieni hynny sydd eisiau cymorth gofal plant i ddychwelyd i'r gwaith mae'r canlynol ar gael:

- **Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE)** - rhaglen £13.5 miliwn a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Llywodraeth Cymru sydd â'r nod o helpu rhieni economaidd anweithgar/NEET i gael gwaith os mai gofal plant yw'r prif rwystr iddynt. Mae rhieni'n cael cymorth wedi'i deilwra'n unigol drwy Gyngorydd Cyflogaeth Rhieni yn eu cymuned leol ac mae'r rhaglen yn rhoi cymorth gyda chostau gofal plant ar gyfer rhieni sy'n ymgymryd â phrofiad gwaith, addysg neu hyfforddiant, a hefyd ar gyfer y 2 wythnos ar ôl iddynt ddechrau gweithio i'w helpu gyda'r cyfnod pontio wrth ddechrau gweithio.

Ers mis Gorffennaf 2015, mae PaCE wedi gweithio gyda 3400 a mwy o rieni, ac mae wedi helpu mwy na 1100 ohonynt i ddechrau gweithio. Mae costau gofal plant wedi amrywio yn ôl anghenion pob rhiant. Mae uchafswm cost o £55 y dydd / £275 yr wythnos ar gyfer un plentyn neu £90 y dydd/£450 yr wythnos ar gyfer mwy nag un plentyn. Mae PaCE yn gallu ariannu costau uwch ar gyfer unrhyw blant ag anghenion ychwanegol.

Hyd yma mae 590 o rieni wedi cael cymorth ariannol drwy PaCE fel bod eu plant yn gallu cael gofal plant cofrestredig. Mae'r cymorth hwn wedi galluogi rhieni i ymgymryd â hyfforddiant, profiad gwaith neu gyfleoedd gwirfoddoli i gynyddu hyder a sgiliau cyflogadwyedd, sydd wedi gwella eu rhagolygon o gael swydd gynaliadwy. Mae PaCE wedi talu mwy na £400,000 mewn costau gofal plant, nid yn unig i helpu rhieni i baratoi at waith, ond hefyd i'w helpu gyda'r cyfnod pontio i'r byd gwaith am yr ychydig wythnosau cyntaf.

Mae gwerthusiad i ystyried effaith PaCE wedi ei gomisiynu a bydd yr adroddiad cyntaf yn cael ei gyhoeddi'n ddiweddarach eleni, a fydd yn cynnwys adborth gan rieni ar sut mae PaCE wedi'u cynorthwyo i ddechrau gweithio, a sut aethpwyd i'r afael â gofal plant i ddiwallu eu hanghenion. Mae trafodaethau ar droed gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ynghylch ymestyn prosiect PaCE y tu hwnt i

2020. Bydd cyngor yn cael ei roi i Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes a'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol ym mis Tachwedd.

- **Cymunedau am Waith** - gwasanaeth cynghori cymunedol sy'n cael ei gefnogi gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a'i gyd-noddi gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, sy'n gweithio gydag oedolion sydd wedi bod yn economaidd anweithgar ac yn ddi-waith ers amser maith a phobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae'r rhaglen wedi cael ei hymestyn tan 2020 a bydd yn darparu £70.5 miliwn mewn gwasanaethau cymorth cyflogaeth yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru tan fis Rhagfyr 2020. Mae'r rhaglen yn rhoi cyllid i dimau cyflawni fel y gallant gefnogi cyfranogwyr i oresgyn rhwystrau i gyflogaeth neu hyfforddiant, sy'n cynnwys cost gofal plant byrdymor. Hyd yma mae'r rhaglen wedi cefnogi 165 o geisiadau am gymorth gyda gofal plant, sy'n gyfanswm o £17,602. Mae trafodaethau ar droed gyda Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ynghylch ymestyn y prosiect Cymunedau am Waith y tu hwnt i 2020. Bydd cyngor yn cael ei roi i'r Gweinidog ym mis Tachwedd.
- **Cymunedau am Waith a Mwy (CfW+)** - rhaglen gwerth £12 miliwn y flwyddyn a ariennir gan Lywodraeth Cymru a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2018 i ymestyn cymorth cyflogadwyedd i bobl sydd ddim yn gymwys i gael cymorth rhaglenni Cymunedau am Waith, PaCE neu raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop rhanbarthol eraill. Mae CfW+ yn rhoi cyllid i dimau cyflawni fel y gallant gynorthwyo cyfranogwyr, yn cynnwys cost gofal plant byrdymor tra'u bod yn cwblhau hyfforddiant. Mae trafodaethau ar droed gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ynghylch ymestyn y prosiect Cymunedau am Waith a Mwy y tu hwnt i 2020. Bydd cyngor yn cael ei roi i Weinidog y Gymraeg ym mis Tachwedd.
- O fis Ebrill 2019, bydd **Cymru'n Gweithio** yn gallu cynorthwyo pobl ddi-waith neu economaidd anweithgar hefyd drwy ddull newydd o ddarparu cymorth gyda chyflogadwyedd a sgiliau, gyda'r nod o gynorthwyo pobl i gael gwaith drwy fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n eu rhwystro rhag gweithio. Bydd cyfranogwyr sydd ddim yn gweithio sy'n cael cymorth drwy Cymru'n Gweithio yn gallu gwneud cais am gyfraniad tuag at gostau gofal plant os yw hyn yn eu rhwystro rhag manteisio ar y ddarpariaeth. Rhaid i Cymru'n Gweithio gael ei gyflwyno o fewn yr oriau sy'n gyfleus i'r cyfranogwr lle bo'n bosibl, ond os nad yw hyn yn bosibl, neu os nad oes modd dod o hyd i gymorth amgen, ystyrir rhoi cymorth tuag at gostau gofal plant.

Ochr yn ochr â'r cymorth sy'n cael sylw uchod, mae'n bwysig hefyd cofio am raglenni blaenllaw eraill nad ydynt yn gysylltiedig â statws gwaith rhiant neu ag a yw mewn addysg a hyfforddiant ai peidio.

O'r tymor ar ôl i blentyn droi'n 2 oed, gall teuluoedd cymwys sy'n byw mewn ardaloedd **Dechrau'n Deg** fanteisio ar 12.5 awr o ofal plant a ariennir gan y llywodraeth yn ystod y tymor mewn lleoliadau lleol dynodedig, 39 wythnos y flwyddyn, ynghyd â hyd at 15 'sesiwn teulu' yn ystod gwyliau'r haf. Mae'r rhaglen yn targedu ardaloedd daearyddol penodol, ac mae ardaloedd Dechrau'n Deg yn cynnwys rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Cryfder y rhaglen yw ei bod yn cyfuno gofal plant o'r radd flaenaf, gwasanaeth ymwelwyr iechyd, rhaglenni magu plant a gwasanaeth iaith a llferydd mewn dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Mae ar gael i 37,000 a mwy o blant sy'n byw o fewn ffiniau'r ardaloedd â'r angen mwyaf ar hyn o bryd. Gwyddom fod hyn yn

cyfateb i tua 25% o'r plant 0-3 oed yng Nghymru. Mae'n targedu ardaloedd o amddifadedd ac rydym yn amcangyfrif ei bod yn cyrraedd 36-44% o blant 0-3 oed sy'n byw mewn tlodi.

Yn ogystal, gall pob plentyn 3 a 4 oed gael addysg feithrin **Cyfnod Sylfaen** ran-amser am ddim<sup>4</sup> cyn iddynt ddechrau addysg orfodol yn 5 oed. Rhaid i awdurdodau lleol roi lle addysg gynnar o'r tymor yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn 3 oed.

Fel yr wyf wedi dweud wrth y Pwyllgor eisoes, mae gennym nifer o raglenni cymorth gofal plant ar waith ar gyfer rhieni sydd mewn hyfforddiant ac addysg ac ar gyfer rhieni sydd angen cymorth i ddychwelyd i'r gwaith, ac mae'r gwaith mewnol a wnaed yn tanlinellu ac yn atgyfnerthu hynny.

Wedi dweud hynny, rwy'n gwerthfawrogi nad yw'r wybodaeth sydd ar gael i helpu pobl i ddeall pa gymorth sydd ar gael bob amser yn cael ei chyflwyno yn y ffordd fwyaf eglur. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion edrych ar sut gallwn ni gyfathrebu'n well a chodi ymwybyddiaeth o'r hyn sydd ar gael, gan gynnwys gweithio gyda Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd sy'n darparu amrywiaeth eang o wybodaeth, cyngor a chymorth lleol i deuluoedd, yn cynnwys gwybodaeth am ofal plant a gwasanaethau cysylltiedig. Byddwn yn croesawu unrhyw awgrymiadau sydd gan y Pwyllgor yn hyn o beth.

Yn gywir



**Huw Irranca-Davies AC/AM**

Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol  
Minister for Children, Older People and Social Care

---

<sup>4</sup> <https://beta.llyw.cymru/cyfnod-sylfaen-meithrin-canllaw-ar-gyfer-rhieni-gofalwyr>